



Cymdeithas y Cyfreithwyr
The Law Society

Eisteddfod Genedlaethol Cymru Caerdydd a'r Cylch 2008

Carwyn Jones AC, Cwnsler Cyffredinol
Y Gyfraith yng Nghymru: Y Ddeng Mlynedd Nesa'

cefnogi
cyfreithwyr





Cymdeithas y Cyfreithwyr
The Law Society

CARWYN JONES

Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru

Ganed Carwyn ym 1967 ac addysgwyd ef yn Ysgol Gyfun Brynteg, Penybont ar Ogwr, Prifysgol Cymru Aberystwyth ac Ysgol y Gyfraith Ysbyta'r Llys yn Llundain. Cyn ei ethol i'r Cynulliad, bu'n fargyfreithiwr mewn siambrau yng Nghaerdydd, yn arbenigo mewn cyfraith troseddol, cyfraith teulu a chyfraith anaf personol. Bu hefyd yn diwtor proffesiynol yn Ysgol y Gyfraith Prifysgol Caerdydd.

Fe'i apwyntiwyd yn Ddirprwy Ysgrifennydd ym Mawrth 2000 a chymerodd le Christine Gwyther fel Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ar noswyl Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru yng Ngorffennaf 2000.

Mae Carwyn wedi dal nifer o swyddi gweinidogol, gan gynnwys bod yn Weinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad ac mae bellach yn Gwnsler Cyffredinol.

Y GYFRAITH YNG NGHYMRU – Y DDENG MLYNEDD NESAF

Mae'n ffrainc fawr i mi gael gwahoddiad i draddodi Darlith Cymdeithas y Cyfreithwyr eleni yn rhinwedd fy swydd fel Cwnsler Cyffredinol cyntaf Llywodraeth Cynulliad Cymru, swydd y cefais fy mhenodi iddi o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Roedd 25 Gorffennaf 2006 yn ddyddiad o bwys yn hanes Cymru, gan mai dyma ddechrau'r ail bennod yn hanes datganoli yng Nghymru. Ar y diwrnod hwnnw, wrth gwrs, y cafodd Deddf Llywodraeth Cymru 2006 Gydsyniad Brenhinol.

Dechreuodd y bennod gyntaf yn ôl ym 1998 pan gafwyd Deddf gyntaf Llywodraeth Cymru. O dan y Ddeddf honno y crëwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan roi llais democrataidd newydd i bobl Cymru mewn nifer o'r penderfyniadau allweddol sy'n effeithio arnynt hwy a'u gwlad. Y statws cyfreithiol a roddwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol gan Ddeddf 1998 oedd statws corfforaeth statudol, a oedd yn cynnwys 60 o Aelodau Cynulliad, ac a oedd yn seiliedig i raddau helaeth ar y gyfundrefn a oedd ar gael ar y pryd ym maes llywodraeth leol.

Rhoddyd ystod amrywiol o bwerau gweithredol i'r Cynulliad Cenedlaethol wedi hynny, gan gynnwys pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth, a hynny ar draws meysydd iechyd, addysg, yr amgylchedd, datblygu economaidd a diwylliant, i enwi ond ychydig ohonynt.

Nid oedd yn ymarferol i benderfyniadau ar yr ystod anferth hon o swyddogaethau gael eu gwneud o ddydd i ddydd gan y 60 o Aelodau Cynulliad ac o'r herwydd, roedd Deddf 1998 yn caniatáu i'r Cynulliad Cenedlaethol ddirprwyo ei swyddogaethau i Brif Weinidog Cymru, a oedd, yn eu tro, yn cael eu dirprwyo i'r Gweinidogion eraill.

Deddf Llywodraeth Cymru 2006

Yna, ym mis Mehefin 2005, dechreuodd braslun yr ail bennod yn hanes datganoli yng Nghymru ddod i'r amlwg. Cyflwynodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru Bapur Gwyn newydd, "Trefn Llywodraethu Well i Gymru", gerbron y Senedd. Roedd y Papur Gwyn yn cydnabod mai'r

Gweinidogion oedd, yn ymarferol, yn cyflawni swyddogaethau'r Cynulliad o ddydd i ddydd.

Cydnabyddir bod strwythur cyfansoddiadol y Cynulliad ar y pryd yn golygu ei bod yn anodd yn aml i'r cyhoedd yn gyffredinol ddeall pwy oedd yn gyfrifol ac yn atebol am y rhan fwyaf o bolisiâu'r Cynulliad ac am y rhan fwyaf o'r hyn yr oedd yn ei wneud.

Cydnabuwyd yn y Papur Gwyn hefyd fod llywodraeth leol, sef y cynllun cyfansoddiadol y seiliwyd y Cynulliad arno, wedi symud ymlaen er 1998. Roedd y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol wedi mabwysiadu dull o lywodraethu ar sail Cabinet, lle'r oedd aelodau o'r weithrediaeth yn gwneud penderfyniadau a phwyllgorau craffu yn atebol am y penderfyniadau hynny.

O'r herwydd, cynigiwyd yn y Papur Gwyn y dylid creu awdurdod gweithredol Gweinidogol ar wahân i Gymru, a fyddai'n gwbl atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ond a fyddai ar wahân iddo'n gyfreithiol. Arweiniodd y cynigion hyn at ddeddfu Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a sefydlodd Lywodraeth Cynulliad Cymru ac a ailgyfansoddodd Gynulliad Cenedlaethol Cymru, fel petai, a hynny ar ffurf deddfwrfa ddatganoledig.

Rhoddodd Deddf 2006 effaith i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar wahân i'r deddfwrfa, ond mae'n bwysig ein bod yn deall natur ei bodolaeth, a hynny er mwyn i ni fedru deall, mewn termau cyfreithiol, sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithredu.

Gweinidogion Cymru

O dan gynllun y Ddeddf, ni ragwelir bod swyddogaethau'n cael eu hurddo'n gyfreithiol yn Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yn lle hynny, mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer yr hyn yw Llywodraeth Cynulliad Cymru – sef Prif Weinidog Cymru, Gweinidogion Cymru, Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru a Dirprwy Weinidogion Cymru. Mae'r Ddeddf yn caniatáu i swyddogaethau gael eu hurddo ym Mhrif Weinidog Cymru, yng Ngweinidogion Cymru neu yn y Cwnsler Cyffredinol.

Cafodd mwyafrif llethol y swyddogaethau gweithredol a oedd gynt wedi eu hurddo yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru o dan Ddeddf 2006. Bydd y rhan fwyaf o'r swyddogaethau a roddir i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn cael eu

gwaddoli yng Ngweinidogion Cymru. Wrth gyfeirio at “Weinidogion Cymru”, yr hyn a olygir yw Prif Weinidog Cymru a'r Gweinidogion a benodir o dan adran 48 o Ddeddf 2006. Mae'r Ddeddf yn caniatáu i swyddogaethau “Gweinidogion Cymru” gael eu harfer gan unrhyw un o'r personau hynny. Mae hyn yn golygu bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn fwy tebyg o lawer i'r drefn o lywodraeth a geir yn Whitehall – gyda Phrif Weinidog Cymru yn ben arni, yn yr un modd ag y mae'r Prif Weinidog yn ben ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig.

Rôl Dirprwy Weinidogion Cymru yw cynorthwyo Prif Weinidog Cymru, Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol wrth iddynt arfer eu swyddogaethau. A dyma fi'n dod, felly, at rôl Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Y Cwnsler Cyffredinol

Fel yr wyf wedi crybwyll eisoes, mae'r Cwnsler Cyffredinol yn aelod o Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mae'r swydd yn un y ceir urddo swyddogaethau ynddi. Er nad yw'r Cwnsler Cyffredinol yn un o Weinidogion Cymru, mae'r swydd yn un ac iddi “statws Gweinidogol”. Caiff y Cwnsler Cyffredinol ei benodi gan Ei Mawrhydi, ar argymhelliad Prif Weinidog Cymru -argymhelliad y mae'n rhaid i'r Cynulliad ei gymeradwyo yn gyntaf. Er hynny, nid oes unrhyw reidrwydd ar y Cwnsler Cyffredinol i fod yn Aelod Cynulliad.

Ar ôl iddo gael gwahoddiad i wneud hynny gan Brif Weinidog Cymru, mae'r Cwnsler Cyffredinol yn cael mynd i gyfarfodydd y Cabinet ac yn cael cymryd rhan yn y cyfarfodydd hynny, ac mae'n atebol i'r Cynulliad o ran arfer y swyddogaethau sydd yn rhan o'i swydd.

Y Cwnsler Cyffredinol yw cynghorydd cyfreithiol terfynol ac awdurdodol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ymgynghorir ag ef neu hi ynghylch cwestiynau cyfreithiol sy'n arbennig o gymhleth neu sensitif, neu ynghylch cwestiynau y mae iddynt oblygiadau ehangach. Rhaid ymgynghori â'r Cwnsler Cyffredinol hefyd os oes unrhyw faterion sy'n gysylltiedig â datganoli yn dod i'r amlwg, ond mwy am hynny yn y man.

Mae'n rhaid ymgynghori â'r Cwnsler Cyffredinol o dan nifer o amgylchiadau, ac yn eu plith y mae achosion lle cwestiynir a fyddai un o'r darpariaethau arfaethedig mewn Mesur Cynulliad o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ai peidio, neu a fyddai is-ddeddfwriaeth neu

gamau gweinyddol arfaethedig yn gyfreithlon ai peidio. Rhaid ymgynghori ag ef neu hi hefyd ynghylch materion cyfansoddiadol o bwys.

Y Cwnsler Cyffredinol fydd yn cynrychioli Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn achosion cyfreithiol er na fydd yn gwneud hynny'n bersonol fel rheol. Yn benodol, caiff ef neu hi ddwyn neu amddiffyn achosion cyfreithiol sy'n ymwneud â materion lle mae gan Brif Weinidog Cymru, Gweinidogion Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol swyddogaethau, ar yr amod ei bod yn briodol gwneud hynny er mwyn hyrwyddo neu ddiogelu lles y cyhoedd.

Caiff ef neu hi hefyd ddwyn neu amddiffyn achosion a gynhelir er mwyn penderfynu ar fater sy'n ymwneud â datganoli. Er enghraifft, penderfynu a yw darpariaeth mewn Mesur a basiwyd gan y Cynulliad o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ai peidio, neu benderfynu a gaiff Gweinidogion Cymru arfer pŵer penodol neu beidio.

O'r herwydd, mae portffolio pwysig o gyfrifoldebau cyfreithiol yn gysylltiedig â swydd y Cwnsler Cyffredinol, a bydd ef neu hi'n cael cymorth Adran Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cynulliad Cymru i ysgwyddo'r cyfrifoldebau hynny. Mae'r Adran hon eisoes yn darparu ystod eang, amrywiol a chymhleth o wasanaethau cyfreithiol i Lywodraeth Cynulliad Cymru ac yr wyf wrthi ar hyn o bryd yn meithrin perthynas adeiladol â hi.

Er na chafodd y Cwnsler Cyffredinol ei sefydlu'n ffurfiol yn swyddog cyfraith o dan Ddeddf 2006, mae sawl agwedd ymarferol ar y swydd yn golygu ei bod yn debyg iawn i swydd Swyddog Cyfraith. Yn wir, y Cwnsler Cyffredinol fydd yn cynrychioli Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei hymwneud â Swyddogion Cyfraith Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill.

Deddfu

Cyflwynwyd pwerau deddfu newydd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac ailddiffiniwyd y berthynas rhwng Cymru a Whitehall. Mae hyn wedi cael cryn effaith mewn nifer o ffyrdd. Dyma, hyd yma, sydd wedi creu'r potensial mwyaf o ran trosglwyddo pwerau ers i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gael ei sefydlu yn ôl ym 1999.

Un elfen bwysig o'r setliad datganoli yw nad oes yn rhaid i ddeddfwriaeth Cymru gystadlu bellach am amser prin y Senedd yn San Steffan. Fel y mae Prif Weinidog Cymru wedi dweud droeon, mae Mesurau Cynulliad – sef y categori newydd o ddeddfwriaeth a gyflwynwyd gan Ddeddf 2006 – i bob pwrpas, yn gyfreithiau i Gymru. Maent yn ddeddfwriaeth a “wnaed yng Nghymru”.

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cael rôl ddeddfwriaethol newydd ac arloesol. Roedd y Cynulliad yn cael gwneud deddfwriaeth yn y gorffennol, ond is-ddeddfwriaeth ydoedd o'r math a fyddai'n cael ei wneud yn Whitehall gan Weinidogion y Goron. Mae swyddogaeth gwneud is-ddeddfwriaeth wedi ei throsglwyddo bellach i Weinidogion Cymru.

O ganlyniad i Ddeddf 2006, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn gallu pasio cyfreithiau a elwir yn Fesurau Cynulliad. Cyfreithiau yw'r rhain sy'n cael eu pasio gan y Cynulliad a'u cymeradwyo gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Ddeddf, cânt wneud unrhyw ddarpariaeth y byddai modd ei wneud drwy gyfrwng un o Ddeddfau Senedd y Deyrnas Unedig.

Mae gan y Cynulliad y pŵer i basio Mesurau sydd o fewn ei gymhwysedd deddfwriaethol, a chaiff cwmpas ei gymhwysedd deddfwriaethol ar unrhyw adeg benodol ei ddiffinio gan yr hyn a geir yn Atodlen 5 i'r Ddeddf.

Rhestrir 20 o Feysydd yn Atodlen 5, ac mae pob un o'r Meysydd hyn yn rhai lle y mae gan Weinidogion Cymru swyddogaethau. Yn eu plith y mae iechyd, addysg a hyfforddiant, datblygu economaidd, yr amgylchedd a diwylliant - ac o dan rai o'r Meysydd hyn rhestrir Materion. Mae Deddf 2006 yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad Cenedlaethol basio Mesurau sy'n ymwneud â'r Materion hynny sydd i'w gweld yn Atodlen 5, yn ddarostyngedig i rai cyfyngiadau cyffredinol.

Mesurau Cynulliad

Byddaf yn mynd ati isod i amlinellu sut yr eir ati i roi Materion o fewn Meysydd. Cafodd tri mesur eu cynnig gan y Llywodraeth o dan raglen ddeddfwriaethol y Cynulliad ar gyfer 2007/8, sef y Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG, y Mesur Teithio gan Ddysgwyr â'r

Mesur Dysgu a Sgiliau.

Cafodd y cyntaf o'r Mesurau hyn, sef y Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008, Gymeradwyaeth Frenhinol ym mis Gorffennaf 2008, a dyma'r Mesur Cynulliad cyntaf i'w roi ar y 'llyfr statud'. Mae'r Mesur hwn yn rhoi mwy o hawliau i gleifion yng Nghymru drwy Gynllun Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG ac mae'n symleiddio'r trefniadau sy'n caniatáu i gleifion wneud cais i gael eu digolledu'n ariannol gan y GIG.

Mae'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr yn mynd ar hyn o bryd drwy'r broses craffu ar ddeddfwriaeth a bennir yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad. Bwriad y Mesur hwn yw diwygio'r gyfraith ar gludo plant i'r ysgol yng Nghymru, hyrwyddo system cludiant i'r ysgol sy'n fwy gwyrdd a rhoi'r pŵer i Lywodraeth Cynulliad Cymru ehangu'r Cynllun Llwybrau Mwy Diogel i'r Ysgol.

Cafodd y Mesur Dysgu a Sgiliau ei gyflwyno yn y Cynulliad ar 7 Gorffennaf 2008. Bwriad y Mesur hwn yw diwygio'r cwricwlwm 14-19 ym maes addysg.

Gan adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd o dan raglen ddeddfwriaethol 2007/8, datgelodd Prif Weinidog Cymru yn ddiweddar y byddai pum Mesur arall yn cael eu cyflwyno gan y Llywodraeth yn 2008/9. Bydd y Mesurau hyn yn ymdrin â Thlodi Plant, Anghenion Dysgu Ychwanegol, Codi Tâl am Ofal Cymdeithasol nad yw'n Ofal Preswyl, Gwell Gwasanaethau Lleol a Thai Fforddiadwy.

Cymhwysedd Deddfwriaethol

At hynny, gwnaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru gais am chwe 'Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol' yn ystod y rhaglen ddeddfwriaethol ddiwethaf. Mae'r Gorchymynion Cymhwysedd Deddfwriaethol hyn yn cael eu gwneud gan Ei Mawrhydi drwy gyfrwng Gorchymynion yn y Cyfrin Gyngor o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac mae cais am Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol, i bob pwrpas, yn gais i'r Senedd ddatganoli pwerau deddfwriaethol mewn meysydd polisi penodol i'r Cynulliad. Unwaith y mae'r Gorchymynion hyn wedi eu gwneud, maent yn troi'n Faterion, a chaiff y Cynulliad wedyn, yn ddarostyngedig i'r darpariaethau yn Rhan 3 o'r Ddeddf, rwydd hynt i ddeddfu yn y meysydd hynny, gan wneud unrhyw ddarpariaeth y byddai modd ei gwneud o dan Ddeddf Seneddol.

Roedd y chwe Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol y gwnaed cais amdanynt y llynedd yn

gysylltiedig â meysydd Addysg a Hyfforddiant, Diogelu'r Amgylchedd a Rheoli Gwastraff, Plant Agored i Niwed, Gofal Cartref, Tai Fforddiadwy a'r Iaith Gymraeg.

Y cyntaf o'r Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol hyn, sef 'Gorchmyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Addysg a Hyfforddiant) 2008', a gafodd ei wneud ym mis Ebrill eleni, oedd y Gorchmyn cyntaf o'i fath erioed. Bydd yn caniatáu i Fesurau gael eu pasio yn y dyfodol er mwyn gweddnewid yn sylweddol y system ar gyfer gwneud datganiadau ym maes addysg arbennig.

Dros gyfnod o amser, caiff rhagor o Faterion eu hychwanegu at Atodlen 5, naill ai drwy gyfrwng Deddfau Seneddol (pwerau fframwaith) neu drwy Orchmynion a wneir gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor o dan Ddeddf 2006. Felly, ar unrhyw adeg benodol, gellir gweld ym mha feysydd y mae gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol drwy droi at gynnwys Atodlen 5.

Yn ystod y rhaglen ddeddfwriaethol ar gyfer 2008-9, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ceisio cymhwysedd deddfwriaethol yn y meysydd a ganlyn:- rhoi cymorth i ofalwyr; hyrwyddo diwylliant; darpariaeth i sefydliadau Addysg Bellach ddyfarnu graddau sylfaen, a phwerau dros y Diwydiant Cig Coch.

Craffu a rhan y cyhoedd

O dan y prosesau democrataidd tryloyw sydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, caiff y cyhoedd (boed yn fusnes, yn elusen neu'n sefydliad gwirfoddol) chwarae rhan yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar bynciau sydd o dan awdurdodaeth Cymru. Mae'r prosesau a sefydlwyd ar gyfer Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol ac ar gyfer Mesurau yn rhoi rhagor o gyfleoedd i bobl Cymru fynegi eu safbwyntiau am ddeddfwriaeth arfaethedig. Er enghraifft, caiff Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig eu cyflwyno gerbron y Cynulliad er mwyn iddo gael craffu arnynt cyn y broses ddeddfu. O'r herwydd, mae modd eu diwygio cyn iddynt gael eu cyflwyno gan y Cynulliad ar ffurf drafftiau terfynol o Orchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol sydd i'w cymeradwyo'n ffurfiol.

Mae Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn darparu ar gyfer y cyfnod hwn o graffu cyn y broses ddeddfu. Yn ystod y cyfnod hwn, mae pobl Cymru'n cael cyfle i fynegi eu safbwyntiau am y meysydd y gallai'r Cynulliad gael pwerau ynddynt er mwyn pasio Mesurau. At hynny, mae'r

Cynulliad wedi cyflwyno system newydd o ddeisebau. Am y tro cyntaf erioed, nid yn unig y mae'r cyhoedd yn gallu cyflwyno deisebau i'r Cynulliad gan ofyn iddo weithredu yn y meysydd polisi y mae'r Cynulliad yn gyfrifol amdanynt, ond mae'n ofynnol hefyd i'r Cynulliad weithredu ar y deisebau hynny os ydynt o fewn cwrpas ei bwerau. Gall, fel arall, eu cyfeirio at Lywodraeth Cynulliad Cymru neu at unrhyw berson neu gorff arall er mwyn iddynt hwy gymryd y camau y bernir eu bod yn briodol.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn awyddus bob amser i gael clywed syniadau da gan y cyhoedd ynghylch sut y dylai arfer ei phwerau yn y dyfodol ar ran pobl Cymru. Mae gan sefydliadau megis Undebau Llafur ac elusennau rôl hanfodol i'w chwarae yn hyn o beth. Roedd un enghraifft a welwyd yn ddiweddar yn ymwneud â'r gwaharddiad arfaethedig yng Nghymru ar Goleri Hyfforddi Cyn drwy gyfrwng Sioc Drydan. Yn ddiweddar, cyhoeddodd Elin Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig, y byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyflwyno deddfwriaeth a fyddai'n gwneud defnyddio coleri o'r fath yn dramgwydd troseddol. Mae'r cyhoeddiad hwn yn golygu mai Cymru yw'r rhan gyntaf o'r DU sydd wedi ymrwymo i gyflwyno deddfwriaeth a fydd yn gwahardd y coleri hyn. Wrth wneud y penderfyniad hwn, rhoddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyriaeth i sylwadau a gyflwynwyd gan nifer o grwpiau lles anifeiliaid megis y Kennel Club a'r RSPCA a oedd o blaid ymyriad o'r fath, yn ogystal â Chymdeithas y Gweithgynhyrchwyr Coleri Trydan, a oedd yn erbyn ei wahardd.

Y Gymuned Gyfreithiol yng Nghymru

Felly, beth mae'r newidiadau hyn yn ei olygu i'r gymuned gyfreithiol yng Nghymru? Yn yr un modd ag y mae datganoli bellach yn rhan annatod o'n gwleidyddiaeth, ac yn rhywbeth sydd o fudd gwirioneddol i ni, mae'n rhan yr un mor annatod hefyd o'r gyfraith yng Nghymru.

Pan grëwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, cychwynwyd ar broses o wahaniaethu rhwng y gyfraith sy'n gymwys yn Lloegr a'r gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru. Er 1999, mae Deddfau Seneddol wedi rhoi pwerau i'r Cynulliad – a bellach i Weinidogion Cymru – sy'n wahanol i'r pwerau a roddir i Weinidogion y Deyrnas Unedig neu sydd heb bwerau cyfatebol i'r pwerau hynny.

At hynny, roedd y Cynulliad gynt, wrth arfer pwerau Gweinidog y Goron i wneud is-ddeddfwriaeth, yn gwneud hynny mewn ffordd wahanol i Whitehall.

Gyda dyfodiad Mesurau, bydd mwy a mwy o gyfreithiau a wnaed yng Nghymru ar y llyfr statud yn y dyfodol. Er hynny, mae'n bwysig cydnabod na fydd effaith Deddf Llywodraeth Cymru

2006 yn cael ei chyfyngu'n gyfan gwbl i Gymru. Mae Mesurau'n rhan o'r corff cyfraith sy'n cael yr un effaith ledled awdurdodaeth Cymru a Lloegr a bydd iddynt yr un effaith â Deddfau Seneddol, gan gynnwys Deddfau Seneddol addasu. O'r herwydd, byddant yn gallu cael effaith ar Loegr, er mai i raddau cyfyngedig iawn y byddant yn gwneud hynny.

Yn ogystal â'r ffaith y bydd gan y Cynulliad fwy o gymhwysedd deddfwriaethol, ac y bydd modd pasio mwy o Fesurau o dan y cymhwysedd hwnnw, mae nifer o ddatblygiadau eraill ar y gorwel a fydd, mi debygwn i, o ddiddordeb i'r proffesiwn cyfreithiol.

Pwerau Deddfu Sylfaenol

Yn gyntaf, o dan Ddeddf Llywodraeth Cynulliad Cymru 2006, mae modd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gael pwerau deddfu sylfaenol. Mae'r ystod o feysydd pwnc lle y gallai'r Cynulliad arfer pwerau o'r fath yn cael eu nodi yn Atodlen 7 i Ddeddf 2006. Serch hynny, dim ond os bydd pobl Cymru yn pleidleisio o'u plaid mewn refferendwm y ceir pwerau o'r fath. Er mwyn cynnal refferendwm, mae'n rhaid cael sêl bendith y Cynulliad Cenedlaethol, Tŷ'r Arglwyddi a'r Tŷ Cyffredin.

Cymru'n Un a'r Confensiwn Cymru Gyfan

Yn y ddogfen Cymru'n Un, sef cytundeb rhwng y blaid Lafur a Phlaid Cymru yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, gwneir ymrwymiad i gydweithio er mwyn sicrhau canlyniad llwyddiannus mewn refferendwm. Er mwyn braenaru'r tir ar gyfer refferendwm posibl ar bwerau deddfu llawn i'r Cynulliad Cenedlaethol, sefydlwyd 'Confensiwn Cymru Gyfan' yn gynharach eleni. Mae'n cynnwys pobl broffesiynol o'r sector cyhoeddus ac o'r sector preifat, ac mae gan bob un ohonynt ddiddordeb penodol yn nyfodol datganoli yng Nghymru. Cyfarfu pwyllgor gweithredol y Confensiwn am y tro cyntaf ar 14 Gorffennaf 2008.

Rôl y Confensiwn yw codi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o sut y mae'r setliad datganoli yn gweithio yng Nghymru ar hyn o bryd a sut y bydd, o bosibl, yn gweithio yn y dyfodol. Bydd y Confensiwn hefyd yn cyflwyno adroddiad i Lywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn iddi fedru gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth drylwyr ynghylch a yw Cymru yn barod am refferendwm ai peidio.

Y Llysoedd

Wrth i ddatganoli symud yn ei flaen yng Nghymru, gwelwyd datblygiadau ar yr un pryd o ran creu rhagor o sefydliadau cyfiawnder yng Nghymru. Yn y flwyddyn 2000, agorwyd y Llys Mercantilaidd yng Nghaerdydd. Yn ei anerchiad wrth agor y llys, dywedodd yr Arglwydd Bingham, Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr ar y pryd:

“Mae sefydlu’r llys hwn yn gydnabyddiaeth, rhy hwyr o lawer, o’r angen i Dywysogaeth Cymru gael ei sefydliadau cynhenid ei hun, sy’n gweithredu’n lleol ac sy’n diwallu anghenion ei dinasyddion yma. Mae’r llys hwn yn gam arall tuag at gydnabod bod Cymru yn genedl falch, wahanol a llwyddiannus.”

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi’n llwyr y farn a fynegwyd gan yr Arglwydd Bingham.

Gwelwyd mwy o ddatblygiadau yn hyn o beth pan argymhellodd Gweithgor yr Arglwydd Ustus May ar Gyfiawnder y tu allan i Lundain y dylid sefydlu swyddfa lawn i’r Llys Gweinyddol yng Nghaerdydd, lle gallai barnwyr eistedd yn rheolaidd er mwyn gwrandao ar achosion. Byddai’n rhesymol disgwyl hefyd mai yng Nghymru y dylid gwrandao ar achosion o Gymru yn y Llys Gweinyddol. Cynigiwyd y dylid sefydlu Llys yng Nghaerdydd o fis Ebrill 2009 ymlaen, er bod y cynnig hwnnw’n dal i fod yn ddibynnol ar sêl bendith yr Arglwydd Ganghellor.

Bu rhestru achosion gerbron y Llys Gweinyddol yng Nghymru yn fater y rhoddwyd sylw iddo mewn dau benderfyniad diweddar gan y llysoedd. Yn yr achos a gynhaliwyd yn 2006, sef Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn erbyn Condrion¹ galwodd y Llys Apêl ar ymarferwyr a swyddogion rhestru i restru achosion o’r fath yng Nghymru yn amlach. Digwyddodd hyn yn achos Deepcock² yn fwy diweddar - achos a oedd yn ymwneud ag adolygiad barnwrol mewn perthynas â Harbwr Biwmares. Gwrthododd y Llys Gweinyddol yng Nghymru gais i drosglwyddo’r achos o Gaerdydd i Lundain, gan orchymyn yn lle hynny y dylid gael gwrandao arno yn Ynys Môn. Yn y pen draw, gwrandawyd ar yr achos yng Nghaernarfon.

¹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn erbyn (1) Elizabeth Condrion a (2) Miller Argent (South Wales) Ltd (2006) EWCA Civ 1573

² (2007) EWHC 3347 (Admin)

Gwelwyd datblygiadau pwysig hefyd ym maes tribiwnlysoedd. Mae Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007, yn galluogi bod tribiwnlysoedd yng Nghymru sydd ar hyn o bryd yn rhai datganoledig yn cael aros y tu allan i'r system tribiwnlysoedd newydd a sefydlwyd gan y Ddeddf honno. Mae Llywodraeth y DU wedi cytuno y dylai fod gan y Tribiwnlys Uchaf ganolfan barhaol yng Nghymru, yr un peth â Lloegr a'r Alban.

Wrth ystyried yr angen i ragor o sefydliadau cyfiawnder gael eu lleoli yng Nghymru, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn bod yn rhaid gwneud hynny yng nghyd-destun y ffaith bod y gyfraith mewn perthynas â Lloegr a'r gyfraith mewn perthynas â Chymru yn gwahaniaethu mwy a mwy, a chan ystyried hefyd natur ddwyieithog y ddeddfwriaeth sy'n cael ei gwneud gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae hyn wedi arwain at yr angen am sefydliadau cyfiawnder sy'n cael eu rheoli'n lleol, sy'n ymateb i anghenion Cymru ac sy'n gyfarwydd â'r gyfraith fel y mae'n gymwys i Gymru. Byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn croesawu camau pellach i'r cyfeiriad hwn.

Mae manteision clir a sylweddol yn gysylltiedig â gweinyddu cyfiawnder mewn llysoedd lleol sy'n gallu ymdrin â deddfwriaeth ddwyieithog a wnaed yng Nghymru, gan gynnwys Mesurau. Byddai manteision mwy cyffredinol hefyd pe bai swyddfa'r Llys Gweinyddol yng Nghaerdydd yn cael ei hehangu. Er enghraifft, byddai cam o'r fath yn golygu y byddai mwy o gyfleoedd i staff sy'n gweithio yn system y llysoedd gael swyddi.

Cyfreithwyr a Bargyfreithwyr

Heblaw hynny, mae'r ffaith bod y gyfraith yn datblygu'n gyson yng Nghymru yn creu'r angen am amrywiaeth ehangach o gyfreithwyr sy'n deall y gyfraith fel y mae'n gymwys i Gymru, a bod ganddynt y wybodaeth a'r profiad i ymgymryd â'r achosion mwyaf cymhleth a sensitif. Un enghraifft o'r fath yw achos Skanda Vale y gwrandawyd arno yng Nghaerdydd gan y Llys Apêl.

Mae'n gwbl hanfodol bod y proffesiynau cyfreithiol yng Nghymru yn eu paratoi eu hunain yn llawn ar gyfer yr heriau a'r cyfleoedd sy'n eu hwynebu yn sgîl sefydlu Llys Gweinyddol llawn yng Nghymru.

Un enghraifft o gyfle o'r fath yw fy mhenderfyniad i hysbysebu er mwyn penodi Panelau o Gwnsleriaid y Frenhines a Chwnsleriaid Iau i wneud gwaith eirioli a chynghori ar ran Llywodraeth y Cynulliad. Roedd y broses hysbysebu ac ymgeisio hon yn un agored, a chyhoeddwyd hysbysebion yn rhifynnau mis Ebrill o'r cyfnodolion, 'Counsel (Cyfnodolyn Bar Cymru a Lloegr)' ac yn y 'Law Society Gazette.' Os oes ganddynt y cymwysterau priodol, caiff bargyfreithwyr a chyfreithwyr fod yn aelodau o'r Panelau hyn.

Caiff yr holl ymgeiswyr eu penodi ar sail eu gallu a'u harbenigedd. Er hynny, mae'n bwysig hefyd fod y Cwnsleriaid sy'n aelodau o'r Panelau hyn, wrth iddynt fynd ati i feithrin perthynas â'i gilydd, yn gwneud hynny mewn ysbryd o gydweithrediad. Yn hyn o beth, mae hi'n hanfodol bwysig bod y Cwnsleriaid sy'n aelodau o'r Panelau hyn yn parchu gwerthoedd Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r bobl y mae'n ei gwasanaethu.

Ychydig iawn o ymateb a gafwyd gan ymgeiswyr lleol, ac roedd hyn yn destun siom i mi. Er na ellir gwarantu unrhyw waith i'r rheini a benodir yn aelodau o'r Panelau, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru am i'r proffesiynau cyfreithiol yng Nghymru gael gwybod y byddai'n well ganddi, pan fo amgylchiadau'n caniatáu hynny, gyfarwyddo Cwnsleriaid lleol.

Ond wedi dweud hynny, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod y byddai'n anodd i ymarferwyr lleol gael digon o waith ar sail achosion gweinyddol yn unig. Mae gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru, megis yr Awdurdodau Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG, rôl hanfodol i'w chwarae o ran cyfarwyddo Cwnsleriaid lleol, gan hyrwyddo cyfleoedd i'r proffesiwn cyfreithiol yma yng Nghymru drwy wneud hynny. Dim ond drwy gyfarwyddo Cwnsleriaid lleol y gall Cymru feithrin rhagor o arbenigedd mewn materion sy'n ymwneud â'r Gyfraith Weinyddol. O'r herwydd, hoffwn roi anogaeth gref i gyrff cyhoeddus yng Nghymru gyfarwyddo Cwnsleriaid lleol lle bynnag y bo modd.

Mae sawl her yn wynebu'r Farnwriaeth hefyd. Mae angen i farnwyr fod yn gyfarwydd â chyfreithiau Cymru a deall ym mha gyd-destun y cawsant eu gwneud. Efallai y gofynnir i'r Farnwriaeth ddehongli rhai o'r darpariaethau yn Neddff Llywodraeth Cymru 2006 nad ydynt,

hyd yma, wedi cael eu profi yn y llysoedd.

At hynny, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn bod angen newid y fframwaith addysg a hyfforddiant ar gyfer newydd-ddyfodiaid i'r proffesiwn cyfreithiol. Mae'n hanfodol bwysig bod y setliad datganoli yng Nghymru o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn dod yn rhan annatod o'r hyfforddiant addysgol a roddir i fyfyrwyr y gyfraith ac i gyfreithwyr dan hyfforddiant. Dylai lle'r setliad yn fframwaith cyfansoddiadol y Deyrnas Unedig fod yn rhan safonol a sylfaenol o unrhyw addysgu am y pwnc hwn. Fel arall, byddai cydbwysedd y pŵer deddfwriaethol a gweithredol sy'n bodoli yn y Deyrnas Unedig heddiw yn cael ei gamliwio.

Y Dyfodol

Yr wyf wedi cyfeirio eisoes at rai o'r datblygiadau cyfreithiol allweddol sydd wedi digwydd, neu sydd ar fin digwydd yng Nghymru. Hoffwn dreulio ychydig amser yn awr yn amlinellu rhai o'r newidiadau posibl ar y gorwel cyfreithiol pe bai etholwyr Cymru, mewn refferendwm arall, yn pleidleisio o blaid rhoi'r hawl i'r Cynulliad arfer pwerau deddfu sylfaenol.

Bydd y "Confensiwn Cymru Gyfan" ar bwerau sylfaenol yn symbylu trafodaethau pellach ynghylch y goblygiadau sy'n gysylltiedig â symud ymlaen i Ran 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'n anochel bod cwestiynau'n codi yn y cyd-destun hwn ynghylch yr effaith a gâi hynny ar awdurdodaeth sengl Cymru a Lloegr ac ar faterion cysylltiedig sy'n ymwneud â datganoli'r drefn o weinyddu cyfawnder.

Mae'r pwerau deddfu newydd a gafwyd eisoes o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn golygu bod potensial i'r gyfraith mewn perthynas â Chymru a'r gyfraith mewn perthynas â Lloegr wahaniaethu fwyfwy. Pe bai etholwyr Cymru, mewn refferendwm arall, yn caniatáu i'r Cynulliad arfer pwerau deddfu sylfaenol, byddai gwahaniaethau o'r fath, mi gredaf i, hyd yn oed yn cynyddu fwyfwy.

Yr wyf yn cydnabod nad oes unrhyw beth yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 ynddi ei hun nac ohoni ei hun yn creu awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân i Gymru o fewn y Deyrnas Unedig, ac nid wyf o'r farn bod achos ar hyn o bryd o blaid awdurdodaeth ar wahân.

Serch hynny, os gwelir sefyllfa lle bydd y Cynulliad yn gallu arfer pwerau deddfu sylfaenol,

mae'n anochel, yn fy marn i, y bydd yn rhaid cynnal trafodaeth ynghylch a ddylid cadw un awdurdodaeth sengl ar gyfer Cymru a Lloegr ai peidio. Ni wn am unrhyw le arall yn y byd lle mae gan ddeddfwrfa bwerau deddfu, ond lle nad oes ganddi awdurdodaeth diriogaethol gysylltiedig.

Dyma un yn unig o'r rhesymau pam ei bod hi'n hanfodol bod gennyf i, fel aelod o Lywodraeth Cynulliad Cymru, fel prif gyngorydd cyfreithiol iddi ac fel aelod o'r proffesiwn cyfreithiol, linellau cyfathrebu effeithiol â'r gymuned gyfreithiol yng Nghymru.

Yn Cymru'n Un, sef y cytundeb rhwng y ddwy blaid sy'n ffurfio Llywodraeth Cynulliad Cymru, gwneir ymrwymiad i ystyried y dystiolaeth o blaid datganoli'r system cyfiawnder troseddol.

Yr wyf yn mawr obeithio y bydd y gymuned gyfreithiol yng Nghymru yn cymryd rhan lawn yn y drafodaeth hon. Mae ganddi rôl hanfodol i'w chwarae o ran sicrhau bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cael gwybod am yr holl ystyriaethau perthnasol.

Hyd yn oed pe bai'r system cyfiawnder troseddol yn cael ei datganoli, yr wyf yn rhagweld y byddai cyfiawnder yn dal i gael ei weinyddu mewn ffordd debyg i'r hyn sy'n digwydd heddiw o dan gyfraith Cymru a Lloegr. Yr wyf yn disgwyl y bydd strwythur y system llysoedd, y Farnwriaeth a'r proffesiwn cyfreithiol yn cadw'r un nodweddion ag sydd ganddynt ar hyn o bryd – er nad oes angen datganoli cyfiawnder troseddol er mwyn creu awdurdodaeth yng Nghymru ychwaith, yn union yr un modd nad yw'r gyfraith gyflogi wedi ei datganoli i'r Alban.

O safbwynt y proffesiwn cyfreithiol, yr wyf o'r farn ei bod hi'n bwysig y gellir symud yn rhydd rhwng Cymru a Lloegr. Mae'n ddigon posibl y bydd modd i ni ddysgu gwersi o'r dull o weithredu sydd wedi ei fabwysiadu yng Ngogledd Iwerddon. Yno, caiff unrhyw aelod o'r proffesiwn wneud cais i ymarfer yng Nghymru a Lloegr.

Nid awgrymir y bydd Cymru'n gweithredu fel endid cyfan gwbl ar wahân i Loegr. O ran y gyfraith, mae Llundain yn cynnig arbenigedd cyfreithiol i'r byd. Mae'n dilyn, felly, bod angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru fanteisio ar yr arbenigedd hwn os yw am ddatblygu ymhellach. Nid oes angen i ni fynd ati i godi mur cyfreithiol o'n hamgylch – ond, mae angen i ni sicrhau

bod gennym strwythur llysoedd a strwythur barnwrol a fyddai'n gweddu i Gymru pe bai'n cael pwerau deddfu.

Wrth gloi heddiw, yr wyf yn gobeithio i mi roi cip i chi ar y datblygiadau cyffrous a welir yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod. Bydd y datblygiadau hyn, yn fy marn i, yn gryn her i'r proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr, ond nid oes gennyf unrhyw amheuon o gwbl y bydd, yn ôl ei arfer, yn ymateb mewn ffordd broffesiynol.